**Cofnodion Fforwm Derbyn, Ceredigion**
**a gynhaliwyd yn Ystafell Brennig, Penmorfa, Aberaeron Ceredigion**
**ddydd Mercher, 26ain Medi, 2018**

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Catrin Miles (Cadeirydd), Philippa Davies (Rhiant-lywodraethwr, Ysgol y Dderi), Peter Leggett (Pennaeth Ysgol Gynradd Rhydypennau), Enid Brophy (Pennaeth Ysgol Padarn Sant)

**SWYDDOGION A OEDD YN BRESENNOL:** Barry Rees (Cyfarwyddwr Corfforaethol); Meinir Ebbsworth (Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Ysgolion / Prif Swyddog Addysg) Cheryl Evans (Cynorthwyydd Gweinyddol) a Lis Williams (Gwasanaethau Democrataidd)

(14:00 – 14:55)

**1. Ymddiheuriadau**
Ymddiheurodd Eifion Evans (Prif Weithredwr), y Cynghorydd Odwyn Davies (Cadeirydd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Cymunedau sy'n Dysgu) a'r Cynghorydd Endaf Edwards (Is-Gadeirydd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Cymunedau sy'n Dysgu) am na fedrent ddod i'r cyfarfod.

2. **Gweithdrefn**
Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod gan ddiolch i'r rhai hynny oedd yn bresennol am ddod.
Nodwyd y gwahoddir tri uwch swyddog o'r Cyngor Sir i'r cyfarfod a chytunwyd i edrych ar gyfansoddiad y Grŵp i weld a yw'n angenrheidiol i'r tri eistedd ar y Grŵp.

3. **Datgelu Buddiannau Personol**
Ni ddatgelwyd unrhyw fuddiannau personol.

4. **Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Mawrth 2018**
Penderfynwyd cadarnhau bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd a 27 Mawrth 2018 yn rhai cywir.

5. **Materion yn codi o Gofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Mawrth 2018**
Nid oedd materion yn codi.

6. **Dogfen Gwybodaeth i Rieni**
Adroddodd Cheryl Evans fod y Ddogfen Gwybodaeth i Rieni yn y broses o'i diweddaru, gyda'r ddogfen derfynol yn barod erbyn diwedd mis Hydref. Cytunwyd i ddanfon copïau papur at bawb o'r Pwyllgor ynghyd â chopi electroneg.

Yn dilyn ymholiad yn y cyfarfod diwethaf nid oes modd cadw cofnod o'r union nifer sy'n darllen y ddogfen ar lein, dim ond cofnodi'r nifer sy'n mynd i'r dudalen we 'Derbyn i Ysgol'. Dim ond ers mis Mawrth y cofnodir y data yma ac adroddir ar y niferoedd yn y cyfarfod nesaf.

Adroddwyd bod ffurflenni derbyn ysgol bellach yn weithredol ar lein. Nododd Peter Leggett i'r ffurflenni ar lein gael eu trafod yng Nghyfarfod Penaethiaid

Cylch Aberystwyth a'r ymateb oedd bod y system ar lein yn rhy hawdd i rieni/gwarchodwyr drosglwyddo'u plant o un ysgol i'r llall. Yn dilyn cwblhau'r ffurflen derbynnir cadarnhad o dderbyn y ffurflen, gyda'r teuluoedd yn cymryd yn ganiataol bod y trosglwyddiad wedi ei dderbyn. Nid yw'r system yn rhoi cyfle i'r ysgol y dymunir trosglwyddo iddi ystyried y cais a chynllunio ar gyfer y trosglwyddiad a chysylltu gyda'r ysgol flaenorol. Gan fod y drefn o newid ysgol mor hawdd nid yw'n rhoi cyfle i deuluoedd ac ysgolion gymodi os gwneir cais am drosglwyddo ar ôl gwahaniaeth barn. Cytunwyd bod angen addasu ychydig ar y system a rhoi protocol mewn lle i benaethiaid gysylltu gyda'i gilydd pan dderbynnir cais am drosglwyddo o ysgol gyfagos.

Cytunwyd y bydd Cheryl Evans yn mynychu Cyfarfod Busnes nesaf Penaethiaid Ceredigion i drafod y system ar lein ac unrhyw bryderon.

7. **APELIADAU DERBYN**

Cyfeiriwyd at bump apêl a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod hanner blwyddyn diwethaf: dau i Ysgol Comins Coch, dau i Blascrug ac un i Ysgol Gynradd Aberaeron. Enillodd y rhieni/gwarcheidwaid dri o'r apeliadau, un yng Nghomins Coch, un ym Mhlascrug a'r un i Ysgol Gynradd Aberaeron a'r Awdurdod yn ennill y ddau apêl arall.

Adroddwyd bod trefniadau ar y gweill ar gyfer pedwar apêl arall yn y dyfodol agos: tri i Ysgol Plascrug ac un i Ysgol Uwchradd Aberteifi.

Cytunwyd y byddai'n fuddiol ychwanegu cwestiwn ar y ffurflen derbyn disgyblion yn holi'r rheswm pam fod rhieni/gwarcheidwaid am ddewis ysgolion tu allan i'w hardal naturiol.

8. **NIFEROEDD DISGYBLION A RHIFAU DERBYN**

Nid oes newid sylweddol wedi bod yn niferoedd disgyblion (cyfatebol llawn amser) i'r hyn a adroddwyd yn y cyfarfod diwethaf er y disgwylir ffigurau terfynol yn fuan. Cafwyd trafodaeth am rifau derbyn ysgolion aml-safle ac adroddwyd mai un rhif derbyn fyddai am yr ysgol yn ei chyfanrwydd a bod gan y Pennaeth yr hawl i benderfynu pa gampws y mae'r disgybl yn medru ei fynychu.

**9. POLISI DERBYN 2020/21**

Adroddodd Cheryl Evans y dosberthir Polisi Derbyn 2020/21 drafft i ysgolion a Llywodraethwyr gan ofyn am ymateb i'r ddogfen erbyn y 1af o Fawrth, 2019.

Mae pwynt 4.2 wedi'i gryfhau o ran grwpiau blwyddyn lle bydd disgyblion yn cael eu derbyn i'r grŵp blwyddyn sy'n briodol ar gyfer eu hoed cronolegol ac na roddir caniatâd i ddisgyblion ymuno gyda grwpiau blwyddyn hŷn neu iau na'u hoed cronolegol. Mae hyn yn gyson gyda Pholisi Anghenion Addysg Arbennig Ceredigion.

Adroddodd y Cyfarwyddwr Strategol yr edrychir yn fuan ar brotocol polisi trafnidiaeth i gyd-fynd gyda'r Polisi Derbyn yn enwedig wrth ail-strwythuro ysgolion.

**10. UNRHYW FATER ARALL**

Dywedodd Peter Leggett fod ysgolion yn cael mwy o ymholiadau am addysg hyblyg a bod rhieni/gwarcheidwaid yn penderfynu addysgu'r plentyn yn llawn amser gartref gan nad yw'r ysgolion yn gweithredu addysg hyblyg o fewn oedran statudol.

Adroddodd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol:Ysgolion/Prif Swyddog Addysg fod darn o waith yn cael ei wneud ar addysg hyblyg/addysg ddewisol yn y cartref lle cyflwynir canllawiau i ysgolion yn y man. Mewn ysgolion lle mae'r llefydd gwag yn brin mae yna achosion o rai disgyblion cyn oedran statudol sy'n gweithredu addysg hyblyg yn cymryd llefydd disgyblion sy'n dymuno mynychu'n llawn amser.

**11. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

Cytunwyd i gynnal y cyfarfod nesaf ar ôl y 1af o Fawrth, 2019 er mwyn adrodd ar ymatebion i'r Polisi Derbyn 2020/21 drafft.

Cafwyd ymholiad pam fod amseriad cyfarfodydd wedi symud o'r hwyrnos i gyfnod yn ystod y dydd gan fod rhai aelodau'n ei gweld yn anodd mynychu. Cytunwyd i barhau i gynnal cyfarfodydd yn ystod y dydd ac, er mwyn hwylustod i aelodau'r pwyllgor, i drefnu cyfarfodydd i gyd-fynd gyda chyfarfodydd eraill a gynhelir ym Mhenmorfa.